CYFARWYDDIADOL

# Cacen Ferwi Nain

Pam ydych chi'n meddwl ei bod hi'n dweud nad yw Nain yn ei ddefnyddio mwyach?

Beth yw'r ffurf a ddefnyddir? Pam ydych chi'n dweud hynny?

**Mae gan Nain lyfr nodiadau yn llawn ryseitiau, un bach glas â thudalennau wedi'u staenio ag olion ei choginio. Dwi'n cofio ei gweld yn ei ddefnyddio fo pan o'n i'n iau. Nawr, dwi wedi'i fabwysiadu gan nad yw Nain yn ei ddefnyddio mwyach, ac mae hon yn un o'r ryseitiau o'r llyfr hwnnw.**

Beth sy'n dangos mai cyfarwydd-iadau sydd yma?

315ml o laeth
60g o fenyn
115g o siwgr brown golau
230g o ffrwythau sych cymysg
1 llwy de o sbeis cymysg
½ llwy de o sinsir mâl
230g o flawd codi
1 llwy de o soda pobi
Pinsied o halen


Cynheswch y popty i 190°C / Ffan 170°C / Nwy 5 ac iro a leinio tun torth â phapur gwrthsaim.

Rhowch y llaeth, y menyn, y siwgr, y ffrwythau cymysg a'r ddau sbeis mewn sosban a dod â nhw at y berw. Gadewch i'r gymysgedd fudferwi am 5 munud.

Yna hidlwch y blawd, y soda pobi a'r halen i mewn i'r gymysgedd a chymysgu'n drwyadl â llwy. Rhowch yn y tun bara a'i phobi am 50 munud. Gadewch iddi oeri ar rwyll fetel.

Lle y byddech chi'n meddwl y gallech ychwanegu cysyllteiriau?

Beth ydych chi'n ei feddwl yw ystyr 'gwrthsaim', 'at y berw', 'mudferwi', a 'sinsir mâl'?



YSGOL BOTWNNOG YSGOL DYFFRYN OGWEN YSGOL TRYFAN

Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government